

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd drwy Fideo Gynhadledd ddydd Mercher, 15 Medi 2021 am 2.00pm

YN BRESENNOL

Siân Williams (Cadeirydd) – Cyfoeth Naturiol Cymru
Iwan Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Charles McCoubrey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Julian Thompson-Hill (dirprwy y Cyng. Hugh Evans) –
Cyngor Sir Ddinbych
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Martin Cox – Cyfoeth Naturiol Cymru
Helen MacArthur – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Tom Barham - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Cynghorydd Gordon Hughes – Cynrychiolydd Cyngor Tref, Cymuned a Dinas Sir
Ddinbych
Vicky Poole – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
Sarah Schofield – Adra
Bethan Jones – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

HEFYD YN BRESENNOL

Hannah Edwards - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Fran Lewis - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Nicola Kneale - Cyngor Sir Ddinbych
Rhodri Tomos-Jones - Cyngor Sir Ddinbych
Karen Evans - Cyngor Sir Ddinbych
Catrin Gilkes – Cyfieithydd
Jason Hanson - Cyfoeth Naturiol Cymru

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Hugh Evans – Cyngor Sir Ddinbych
Jo Whitehead - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021 fel cofnod cywir.*

3 OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU'R CYFARFOD

Cyflwynodd Hannah Edwards adroddiad olrhain camau gweithredu'r cyfarfod a thynnodd sylw'r Bwrdd at y camau gweithredu agored canlynol i'w hystyried ymhellach / gweithredu fel sy'n briodol -

- Roedd dau gam gweithredu cyntaf wedi eu hamlygu, 'defnyddio'r adnodd prawfesur polisiâu gwledig ar gyfer y tri maes blaenoriaeth' ac 'wrth ymgymryd â'r adolygiad o'r asesiad ar effaith, ystyried a oes unrhyw feysydd cydraddoldeb mae'r Bwrdd angen bod yn ymwybodol ohonynt'. Roedd y bwrdd yn cytuno na ellir cau'r camau hyn, fodd bynnag, awgrymwyd amlygu pwyntiau allweddol y camau i asesu yn hytrach na chael diweddariadau ym mhob cyfarfod Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.
- Byddai'r diweddariad iechyd meddwl a lles yn cael ei drafod yn fwy manwl yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed ar gamau gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd.

4 MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion o'r cofnodion blaenorol wedi eu trafod.

5 DIWEDDARIAD CYNNYDD ASESU LLES A CHYMERADWYO YMGYNGHORI AC AMSER CYNLLUN

Cyflwynodd Nicola Kneale (CSDd) yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r BGC ar gynnydd yr Asesiad Lles ac i ddechrau paratoi amserlen ar gyfer ymgynghori.

Mae Asesiad o Lesiant statudol wrthi'n cael ei gynhyrchu, a fydd yn sail i gynllun llesiant nesaf y BGC (y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn Mai 2023 fan bellaf) a chynlluniau llesiant ei sefydliadau cyfansoddol. Bwriadwyd i ddrafft fod yn barod ym mis Tachwedd 2021, fyddai'n mynd drwy broses ymgynghoriad statudol.

Roedd Nicola Kneale yn egluro er mwyn galluogi dealltwriaeth o'r cyfoeth o wybodaeth gymhleth oedd wedi'i chynnwys o fewn yr Asesiad Lles, byddai cyflwyniad o gasgliadau allweddol o'r dadansoddiad o gynnwys yr Asesiad yn sail i'r ymgynghoriad a bod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf ar gyfer cymeradwyaeth.

Eglurodd Nicola Kneale nad oedd yn fwriad i drafod datblygiad y cynllun yn fanwl heddiw, ond bod aelod arweiniol o'r BGC yn cael ei nodi a bod cynnig ar gyfer datblygu'r Cynllun Lles yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Roedd yna gonsensws ymhlith aelodau'r bwrdd na fyddai un arweinydd yn ddigonol, oherwydd ymrwymadau gwaith ond hefyd heb wybodaeth o feysydd eraill o fewn ardal y BGC. Roedd Bethan Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ynghyd â Sarah Schofield (Adra) a Tom Barham (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych) wedi cytuno i arwain ar y mater cynllun llesiant ar y cyd.

Roedd Iwan Davies CBSC wedi ail-gadarnhau'r hyn a drafodwyd yn ystod camau cynnar y BGC ble cytunwyd y byddai'n canolbwyntio ar feysydd nad oedd sefydliadau eraill yn gweithio arnynt. Roedd hyn i osgoi dyblygu gwaith.

Roedd y bwrdd yn teimlo mai gwaith y dyfodol y BGC ddylai adolygu newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar lefel mwy lleol gyda CBSC a CSDd a chytunwyd y byddai'n fuddiol gwahodd gweithgorau lleol ar bynciau penodol a gofyn sut y gallai'r BGC eu cefnogi.

PENDERFYNWYD

- (i) Bod y BGC yn nodi'r cynnydd a wnaed gyda'r asesiad o lesiant, ac yn cymeradwyo'r llinell amser ar gyfer ymgynghori.*
- (ii) Bod y prif gasgliadau o'r asesiad lles yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf a gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymgynghori ar yr asesiad.*
- (iii) Bod y BGC yn nodi cynhyrchu'r amserlen ar gyfer yr Asesiad o Lesiant a bod Bethan Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ynghyd â Sarah Schofield (Adra) a Tom Barham (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych) yn cael eu penodi fel cyd aelodau arweiniol y bwrdd i weithio gyda swyddogion i ffurfio cynnig i gynhyrchu'r cynllun llesiant nesaf.*

6 DIWEDDARIAD AR ARDALOEDD BLAENORIAETH

Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar y meysydd blaenoriaeth i'r BGC -

- (a) Lles meddyliol – hysbyswyd y BGC fod Louise Woodfine (Ymgynghorydd ardal y canol) wedi'i phenodi fel cynrychiolydd newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag oherwydd ymrwymadau blaenorol nid oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod. Roedd angen trafodaeth bellach ar arweinydd blaenoriaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- (b) Ymrymuso'r Gymuned (gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar seilwaith digidol) – rhoddodd Nicola Kneale y wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ar y gwaith a wnaed. Roedd y cynlluniau cysylltedd a oedd ar y gweill ar hyn o bryd wedi eu hamlygu -
 - Roedd cyflwyno ffibr llawn Llywodraeth Cymru yn dod i ben ym mis Mehefin 2022,
 - Roedd Rhwydweithiau Ffibr Llawn Lleol yn anelu i osod band eang ffibr llawn mewn adeiladau cyhoeddus. Yna byddai Openreach yn cysylltu eiddo ar hyd y llwybr ac yng nghyffiniau adeiladau cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd yna rai pryderon gyda chynnydd gan ei fod yn dod i ben ym mis Medi 2021, roedd y mater yn cael ei archwilio gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC).
 - Prosiect Gigabit Llywodraeth Y DU, cyhoeddwyd yn wreiddiol yng nghyllideb y gwanwyn 2020 ond cafodd ei ddal yn ôl gan oedi ac adolygiadau. Roedd yn seiliedig ar addewid y Llywodraeth i sicrhau bod gan 85% o eiddo'r DU fynediad i fandean gigabit erbyn 2025, roedd yna hyd at 234,000 o eiddo gwledig yng Nghymru yn y cwmpas.

- Ychydig iawn o eiddo fyddai'n methu cael mynediad i'r band eang cyflym iawn, byddai'r eiddo hyn yn cael eu dynodi fel 'eiddo gwyn'. Byddai BUEGC hefyd yn rhoi sylw i'r eiddo hyn drwy'r prosiect Ychydig Ganran Ddiwethaf.
- Roedd Partneriaeth Ffibr Cymunedol yn defnyddio'r cynllun Taleb Band Eang Gigabit ac roedd yn gynllun cymhorthdal llywodraeth ar draws y DU i ddarparu cysylltiadau ffibr llawn wedi eu diogelu at y dyfodol i gartrefi a busnesau. Fodd bynnag, roedd yna rai heriau gan na fyddai rhai ardaloedd yn gallu cydgrynhoi'r talebau hyn i dalu am weithredu ffibr mewn rhai cymunedau.
- Roedd gosod ffibr yn ddrud, felly mae'r eiddo hynny sy'n arbennig o anodd eu cyrraedd yn annhebygol o gael eu cynnwys mewn cynlluniau uwchraddio gan Openreach ac ni fydd yr arian ar gael gan CFPs yn ddigonol. Heb ymrwymo buddsoddiad allanol yn yr ardaloedd hyn sy'n anodd i'w cyrraedd, maent yn annhebyg o gael eu huwchraddio am beth amser.

Roedd y Bwrdd yn diolch i Nicola am y wybodaeth ddiweddaraf ar fater cymhleth. Roedd Graham Boase (CSDd) yn awgrymu y gall y BGC edrych ar gysylltedd fel blaenoriaeth, gan ei fod yn effeithio ar bob sefydliad. Roedd yn sylweddoli na allai'r BGC weithredu gwaith, fodd bynnag, gallai ddylanwadu sefydliadau oedd yn ymgymryd â'r gwaith y soniwyd amdano a herio'r sefydliadau ar pa un a gyflawnwyd y gwaith. Gallai hyn wneud cynnydd gyda'r gwaith.

Trafodwyd y gallai'r sefydliadau trydydd sector dderbyn rôl i helpu i symud cymunedau i gael cefnogaeth a chyllid i wella cysylltedd.

Codwyd band eang lloeren a sut yr oedd technoleg wedi'i ddatblygu a gallai fod yr unig ddewis oedd yn hyfyw i rai o'r ardaloedd gwledig yng Nghymru.

- (c) Gwytnwch amgylcheddol – rhoddodd Jason Hanson (Cyfoeth Naturiol Cymru) gyflwyniad i'r BGC yn amlygu gwaith a wnaed o ran y flaenoriaeth gwytnwch amgylcheddol.

Roedd yr is-grŵp wedi adolygu pob blaenoriaeth ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, yn dilyn cais y BGC i wneud hynny. Roedd yr is-grŵp wedi cyfarfod ddwywaith ers y cyfarfod BGC ddiwethaf. Roedd yna ffocws yn bennaf ar adolygu a newid blaenoriaeth 1, y datganiad polisi amgylcheddol. Y chwech blaenoriaeth oedd -

1. Gweithio gyda'n partneriaid BGC i ddatblygu datganiad polisi amgylcheddol, fel ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un nod.
2. Gweithio gyda chymunedau i ddatblygu addewidion amgylcheddol a newidiadau gwyrdd y gallwn ei wneud i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.
3. Edrych ar faterion amgylcheddol sy'n effeithio ar y rhanbarth nad oes modd i ni atgyweirio ein hunain, megis amddiffynfeydd môr a lleihau'r swm o becynnau yn ein siopau.
4. Edrych ar ein proses gaffael a nodi sut y gallwn fwyhau budd cymunedol drwy ddatblygu adeiladau (e.e. drwy Gytundebau Adran 106).
5. Gweithio gyda'n timau cynllunio i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu trin wrth gynllunio datblygiadau newydd.

6. Mannau gwyrdd newydd yn gysylltiedig ag adferiad Covid

Jason Hanson (Cyfoeth Naturiol Cymru) i ddsbarthu'r ymrwymadau diwygiedig i'r bwrdd a gofynnodd am adborth erbyn 15 Hydref. Yn dilyn yr adborth byddai swyddogion yn edrych ar adolygu aelodaeth yr is-grŵp a gofynnwyd i aelodau enwebu cynrychiolydd o'u sefydliad (os nad oedd yna gynrychiolydd ar y grŵp eisoes)...

PENDERFYNWYD

- (a) *Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i nodi'r diweddariadau ar y meysydd blaenoriaeth*
- (b) *Aelodau'r Bwrdd i adborth unrhyw sylwadau ar yr ymrwymadau amgylcheddol diwygiedig erbyn 15 Hydref 2021.*
- (c) *Aelodau'r Bwrdd i ddarparu enwebiadau ar gyfer yr is-grŵp amgylchedd erbyn 15 Hydref 2021.*

7 CYNLLUN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd copi o gynllun gwaith i'r dyfodol y BGC a thrafodwyd y materion canlynol -

- Hysbysodd y cadeirydd y pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cynnwys
 - Derbyn trosolwg o'r prif gasgliadau o'r asesiad lles a chymeradwyo'r asesiad ar gyfer ymgynghori
 - Adolygu canfyddiadau'r is-grŵp, ynglŷn â datblygu'r cynllun llesiant nesaf.
 - Derbyn gwybodaeth ar yr Addewid Sector Cyhoeddus a Gweithwyr Llawrydd
 - Adolygu canfyddiadau ac argymhellion y peilot Adeilad Cyfoeth Cymunedol a Chaffael Cynyddol.
 -
- Nid oedd aelodau'r bwrdd yn awgrymu unrhyw eitemau pellach i'w trafod.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r cynllun gwaith i'r dyfodol.

8 ANFFURFIOL - CAMAU NESAF YN DILYN BGC MIS MEHEFIN

Daeth y cyfarfod i ben am 16:10

9 ER GWYBODAETH - HADDEWID SECTOR CYHOEDDUS A GWAITH ANNIBYNNOL

Roedd yr eitem hon er gwybodaeth ac ni thrafodwyd yn y cyfarfod.

10 ER GWYBODAETH - MENTRAU NEWID HINSAWDD MAPIO A CHYLCH GORCHWYL AR GYFER GOGLEDD CYMRU GRWP SWYDDOGION CARBONEIDDIO

Roedd yr eitem hon er gwybodaeth ac ni thrafodwyd yn y cyfarfod.

11 ER GWYBODAETH - GWYBODAETH CYFRANOGI CYNLLUN KICKSTART

Roedd yr eitem hon er gwybodaeth ac ni thrafodwyd yn y cyfarfod.